Wildlife Trusts Wales

Ymddiriedolaethau Natur Cymru

# Planhigion ar gyfer Peilwyr




## Dyma rai syniadau I ddenu trychfilod sy'n peilio I'ch gardd

# Mae planhigion bwyd ar gyfer rhai o rywogaethau lindys gwyfynod y DU yn cynnwys:



Lindysyn Gwalchwyfyn yr Helyglys



Gwyfyn y Teigr  Ôl-adain Goch

Briwydd, Llau'r Offeiriaid ar gyfer y **Gwalchwyfyn Hofran**

Cyfardwf ar gyfer y **Teigr Ôl-adain Goch**

Ffiwsia ar gyfer **Gwalchwyfyn yr Helyglys**

Grug ar gyfer y **Cwlwm Cariad**

Bydd gwyddfid yn denu **Llwydyn y Gwyddfid** a'r **Gwyfyn Ugain Plufyn**

Bydd penrhudd yn denu'r **Gwyfyn Mintys**

Milddail ar gyfer y **Pwtyn Melyngoch**

# Neithdar ar gyfer Glöynnod Byw

Yn ôl Cadwraeth Glöynnod Byw, mae'r planhigion hyn yn dda iawn i löynnod byw. Maen nhw'n edrych yn dda hefyd!

Coed Mêl

Lafant

Blodau'r Fagwyr Lluosflwydd

Penrhudd

Ferfain yr Ariannin



Mae gerddi'n gallu bod yn warchodfeydd natur trwy gynnig cyflenwadau helaeth o blanhigion neithdar a bwyd

# Planhigion ar gyfer Gwenyn

Tra bo mwyafrif y gwenyn yn defnyddio mathau a siapiau blodau amrywiol i gael neithdar a phaill, mae rhai rhywogaethau gwenyn yn hoffi planhigion penodol. Er enghraifft:



Mae'r **Wenynen Durio Lwydfelen** yn hoffi llwyni sy'n blodeuo'n gynnar, dant y llew a blodau ymenyn

Mae'r llygad doli, llygad y dydd, dant y llew a sgorpionllys yn hoff flodau'r **Wenynen Durio Cochgylchog**

**Cardwenynen y Gwlân** 'Clust yr Oen' a Briwlys



# Planhigion ar gyfer Gwenyn



Bydd y **Wenynen Traed Blewog y Blodau** yn ymweld â llawer o flodau, fel Briallu a Llysiau'r-Ysgyfaint

Mae Meillion a Ffacbys yn flodau pwysig ar gyfer y **Wenynen Hirgorn**






Bydd rhai gwenyn **Deildorrol** yn defnyddio dail neu betalau rhosod, criafol, gwyddfid a lelog i blygio celloedd eu nythod

# Mae denu trychfilod yn dda i'r amgylchedd ac i'n llesiant






Cofiwch, mae'n ddefnyddiol cael amrywiaeth o flodau trwy gydol y flwyddyn





Gadewch ardal o'ch gardd yn 'wyllt' i ganiatáu cylch bywyd i drychfilod

# Rhagor o wybodaeth:

Gwefannau defnyddiol: ewch i'r wefan **https://butterfly-conservation.org/sites/default/files/moth-foodplant.pdf** i gael rhestr lawn

Ewch i'r wefan **https://www.rhs.org.uk/science/conservation-biodiversity/wildlife/plants-for-pollinators**

Ewch i'r wefan **https://www.wildlifetrusts.org/actions/best-plants-bees-and-pollinators**

Llyfrau a Awgrymir:
**Gardening For Bumblebees, A Practical Guide to Creating a Paradise for Pollinators by Dave Goulson**
*Wedi'i gyhoeddi gan Vintage Publishing*

